

Polisi Defnyddio Cemegolion yn y Gwaith a Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (a adwaenir fel COSHH)

1. Cyflwyniad
2. I bwy mae'r polisi hwn yn berthnasol?
3. Y sefyllfa gyfreithiol
4. Gweithdrefn
5. Dyletswyddau'r gweithiwr
6. Hyfforddiant y gweithiwr
7. Monitro

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'n bolisi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yr Awdurdod) i sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio cemegolion gan ein staff ac ar ein safleoedd yn cael eu lleihau bob amser.
- 1.2 Caiff hyn ei gyflawni drwy weithredu cyfres o fesurau rheoli risg. Ein man cychwyn fydd rhoi'r gorau i ddefnyddio cemegolion peryglus lle bynnag y bo'n bosibl. Os na ellir gwneud hyn yna cymerir pob cam rhesymol i ddod o hyd i gemegau llai peryglus.
- 1.3 Mewn achosion pan fydd angen defnyddio cemegolion peryglus, bydd systemau rheoli megis awyru nwyon llosg lleol (LEV) yn cael eu cyflwyno. Bydd Cyfarpar Diogelu Personol (CDP) ddim ond yn cael ei ddarparu pan na ellir rheoli'r peryglon yn effeithiol drwy gyfrwng dulliau eraill.
- 1.4 Bydd y defnydd o gemegolion newydd yn cael ei asesu cyn iddynt gael eu defnyddio.

2. I bwy mae'r polisi hwn yn berthnasol?

- 2.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl staff a gwirfoddolwyr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (cyfeirir at bawb fel 'gweithwyr' yn y polisi hwn).

3. Y sefyllfa gyfreithiol

- 3.1 Caiff y defnydd o gemegolion yn y gweithle ei reoli o dan y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002 (COSHH) a Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2004 (Diwygiedig).
- 3.2 Maent yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod leihau'r peryglon o ddefnyddio cemegolion yn y gwaith ac i gyflwyno mesurau rheoli er mwyn reoli'r rhai sydd yn parhau i fodoli.
- 3.3 Mae COSHH hefyd yn ymfyn i'r Awdurdod hyfforddi gweithwyr am sut i ddefnyddio cemegolion yn ddiogel ac i fonitro effeithiolrwydd unrhyw fesurau rheoli. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n ofynnol i ni gynnal arferion gwyliadwriaeth iechyd. Bydd hyn yn digwydd os bydd unrhyw weithiwr yn agored i sylwedd peryglus a adnabyddir neu sy'n debygol o achosi clefyd neu sy'n niweidiol i iechyd.
- 3.4 Mae COSHH hefyd yn ymfyn i ni storio cemegolion yn ddiogel er mwyn osgoi peryglon tân, ffrwydradau neu niwed amgylcheddol.

4. Gweithdrefn

4.1 Ein polisi ni yw y bydd y drefn hon yn cael ei dilyn gan bob aelod o staff sydd â chyfrifoldebau ar gyfer caffael ac ar gyfer defnydd cemegolion yn ddiogel tra ar ein heiddo a'n safleoedd.

Archebu Cemegolion

4.2 Rhaid cael gwybodaeth ddigonol am bob cemegolyn cyn ei ddefnyddio. Bydd hyn ar ffurf taflen data diogelwch (TDD), a ddylai gael ei darparu gan gyflenwr y cemegolion. Os mai'r bwriad yw defnyddio cemegolyn am y tro cyntaf, yna mae angen cael y TDD berthnasol cyn archebu'r cemegolion. Lle bo angen, bydd rhagor o wybodaeth ar gael gan y cyflenwr cemegolion ac o adnoddau eraill sydd ar gael, megis gwefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Defnyddio Cemegolion ar-safle

4.3 Bydd y defnydd a wneir o holl gemegolion ar y safle yn cael ei asesu. Ar gyfer y rhai sydd wedi eu graddio fel rhai sy'n peri risg / perygl cymharol isel, bydd y broses hon yn syml. Yn yr achosion hyn, cymerir yn ganiataol bod gweithrediad y rheolaethau sydd ar waith yn unol â'r TDD yn ddigonol.

4.4 Os bydd sylweddau perygl uchel, megis cyfryngau sy'n gallu achosi canser, yn cael eu defnyddio, fe ddisgwylir i reolwyr geisio dod o hyd i enghreifftiau llai peryglus yn eu lle. Lle nad oes modd gwneud hyn, bydd yn rhaid sicrhau dulliau rheoli da.

4.5 Os bydd angen cymysgu cemegolion â deunyddiau eraill, mae'n rhaid i bob un gael ei asesu er mwyn sicrhau na fydd unrhyw adwaith niweidiol. Bydd taflen data diogelwch yn darparu gwybodaeth am gemegolion anghydnaws. Ni ddylid diystyru pwysigrwydd y weithdrefn hon oherwydd gall hyd yn oed cyfryngau glanhau bob dydd achosi adwaith difrifol os ydynt yn cael eu cymysgu.

Storio

4.6 Bydd yr Awdurdod yn darparu man storio priodol yn unol â phriodweddau pob cemegolyn. Bydd y math o le storio sy'n angenrheidiol yn cael ei bennu drwy gyfeirio at daflen data diogelwch. Rhoddir ystyriaeth arbennig i hylifau fflamadwy, cemegolion sy'n beryglus i'r amgylchedd a chyfryngau ocsideiddio (oherwydd y risg o ffrwydrad). Bydd addasrwydd storio cemegolion yn cael ei adolygu yn ôl yr angen gan y Pennaeth Eiddo.

5. Dyletswyddau'r gweithwyr

5.1 Disgwylir i bob gweithiwr gydweithredu â'r Awdurdod o ran unrhyw reolaethau sydd wedi'u cyflwyno, er mwyn sicrhau bod cemegolion yn cael eu defnyddio a'u storio yn ddiogel ar y safle.

5.2 Lle pennwyd bod angen Cyfarpar Diogelu Personol, disgwylir i'r gweithwyr ei wisgo a gofalu amdano yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr.

5.3 Mae'r Awdurdod hefyd yn disgwyl i bob gweithiwr adrodd am unrhyw bryderon i'w reolwr llinell neu oruchwyliwr. Bydd y rhain yn cael eu trin yn brydlon. Petai angen cymryd unrhyw gamau pellach, yna rhoddir gwybod i'r gweithwyr sy'n lleisio'r pryder ynghylch sut y bwriedir gwneud hynny.

6. Hyfforddiant i'r gweithwyr

6.1 Bydd pob gweithiwr yn cael gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant ynglŷn â sut i ddefnyddio cemegolion yn ddiogel. Bydd hyn yn cael ei ailadrodd yn ôl yr angen, e.e. wrth gyflwyno cemegolion neu brosesau newydd. Darperir hyfforddiant ar ffurf ymarferol lle bydd y peryglon a'r rheolaethau yn cael eu deall yn glir, e.e. hyfforddiant ar weithdrefnau gweithredu.

7. Monitro

7.1 Bydd y polisi hwn yn cael ei fonitro gan y Penaethiaid Gwasanaeth ac aelodau o'r Grŵp Iechyd a Diogelwch drwy gynnal archwiliadau diogelwch o bryd i'w gilydd. Bydd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Defnyddio cemegau
- Cynnal a chadw systemau rheoli
- Cydymffurfio ag arferion gwaith diogel
- Darparu gwybodaeth i'r gweithwyr
- Storio cemegau.

Lle bo contractwyr ar y safle, byddant yn cael eu monitro i sicrhau nad ydynt yn achosi perygl i'r gweithwyr, ymwelwyr na hwy eu hunain.

8. Diffiniad HSE o'r hyn y mae COSHH yn ei gynnwys

8.1 Mae COSHH yn ymdrin â sylweddau sy'n beryglus i iechyd. Gall sylweddau gymryd sawl ffurf ac maent yn cynnwys:

- Cemegolion
- Cynnyrch sy'n cynnwys cemegolion
- Mygdarth
- Llwch
- Anwedd
- Tarth
- Nanotechnoleg
- Nwyon a nwyon myglyd a
- Chyfyngau biolegol (germau). Os oes unrhyw un o'r symbolau perygl yn ymddangos ar y deunydd pecynnu yna mae'n cael ei ddsbarthu fel sylwedd peryglus
- Germau sy'n achosi clefydau megis leptosbrosis neu glefyd y llengfilwyr a germau a ddefnyddir mewn labordai.

Nid yw COSHH yn ymdrin â phlwm, asbestos neu sylweddau ymbelydrol oherwydd bod gan y rhain eu rheoliadau penodol eu hunain.

Gwybodaeth bellach

HSE: INDG 136 (rev 5), Working with substances hazardous to health: A brief guide to COSHH

<http://www.hse.gov.uk/pubns/indg136.pdf>

2016/06